


Cysylltwch â ni yn:

Ffôn: 02922 330880/02922 330883

E-bost caerdyddabromorgannwg@caerdydd.gov.uk

[www.cardiffandvalersb.co.uk](http://www.cardiffandvalersb.co.uk)



Cardiff and Vale of Glamorgan  
Regional Safeguarding  
Children Board



Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

# Cylchlythyr

## Yn y rhifyn hwn:

• Ymgyrch "Gyda'n gilydd gallwn gadw pobl yn ddiogel"

• "Gyda'n gilydd byddwn yn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel" - Canllaw Anstatudol i Ymarferwyr

• Amddiffyn pobl hŷn rhag troseddau ar-lein a sgamiau

• Pecyn Sefydlu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

• Adnoddau a ychwanegwyd at y wefan

• Strategaeth Mynd i'r Afael â Chamfanteisio

• Hysbyseb ar y radio

• Wythnos Ddiogelu Genedlaethol

• Stop it Now! Taflenni hyrwyddo Cymru

• Digwyddiadau'r Hydref sydd i ddod

## Ymgyrch "Gyda'n gilydd gallwn gadw pobl yn ddiogel"

Ymgyrch a lanswyd ar 6 Gorffennaf ledled Cymru i annog pobl i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol os ydynt yn poeni bod aelod o'r teulu, cyfaill neu gymydog mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso a'i niweidio. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru wedi gweld gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'w gwasanaethau ers dechrau'r cyfnod cloi. Nid yw cam-drin, esgeulustod na niweidio wedi dod i ben ond mae'r cyfleoedd i adnabod yr arwyddion wedi lleihau gan fod mynediad i leoliadau gofal plant, ysgolion a sefyllfaoedd cymdeithasol wedi bod yn gyfyngedig. Nawr, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gofalu am ein gilydd ac yn annog pobl i gysylltu â'u Gwasanaethau Cymdeithasol lleol neu ffonio 101 os ydynt yn poeni y gallai rhywun fod mewn perygl. Dywedodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg: "Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn agored ac yn barod i helpu os yw pobl yn pryderu bod aelod o'r teulu, cyfaill neu gymydog angen cymorth. "Er ein bod wedi ceisio cadw cysylltiad â phobl sydd eisoes yn hysbys i ni cyn y cyfnod cloi, mae perygl bod cam-drin, esgeulustod neu niwed yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig a'i fod yn cael ei waethygu gan y pandemig. Byddem yn annog unrhyw un sy'n poeni i alw'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall fod yn benderfyniad anodd ond yn un a allai helpu i achub rhywun rhag dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed. Gallwch hefyd ffonio 101 neu, mewn argyfwng ffoniwch 999. Yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae'n rhaid i ni i gyd ofalu am ein gilydd – gyda'n gilydd gallwn gadw pobl yn ddiogel." Ewch i [wefan Cymorth Diogel](#) am ragor o wybodaeth am Wasanaethau Cymdeithasol lleol a sut i fynegi eich pryderon. Os yw eich galwad yn fwy brys deialwch 101, neu mewn argyfwng ffoniwch 999. Gyda'n gilydd gallwn gadw plant, pobl ifanc ac oedolion yn ddiogel. #GwneudyrAlwadCymru



## "Gyda'n gilydd byddwn yn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel" - Canllaw Anstatudol i Ymarferwyr

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio [canllawiau anstatudol](#) i atgoffa ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau o'u cyfrifoldebau i ddiogelu plant a'u cefnogi i ymateb i bryderon am blant sydd mewn perygl. Mae'r pandemig coronafeirws (Covid-19) wedi cyflwyno heriau newydd ac anodd i bawb. Mae llawer o aelwydydd wedi'u rhoi o dan straen neu wedi wynebu adfyd oherwydd effaith gymdeithasol, seicolegol ac economaidd y pandemig a'r cyfnod cloi. Mae Llywodraeth Cymru yn gwybod bod ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau yn y sector statudol a'r trydydd sector wedi gorfod addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio, gan barhau i wneud yn siŵr bod plant a theuluoedd yn cael cymorth. Mae gwasanaethau wedi gwneud popeth o fewn eu gallu o dan amgylchiadau anodd ond rydym yn gwybod yn anffodus y bydd rhai plant wedi cael eu niweidio heb i ni wybod. Mae llawer o ymarferwyr yn brofiadol iawn mewn ymarfer diogelu; efallai na fydd eraill yn teimlo mor hyderus yn y maes ymarfer hwn. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth y mae llawer o ymarferwyr eisoes yn ymwybodol ohoni ond maent yn gobeithio y bydd tynnu'r rhain ynghyd yn un canllaw yn ddefnyddiol. Mae'r canllaw hwn yn cysylltu â [Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru](#) a dylid ei ddefnyddio ochr yn ochr â nhw.

## Amddiffyn pobl hŷn rhag troseddau ar-lein a sgamiau

Gyda mwy o bobl hŷn yn defnyddio cyfrifiaduron, cyfrifiaduron llechen a ffonau clyfar o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn cymryd ychydig o gamau syml fel y gallant aros yn ddiogel ar-lein. Dyna'r neges gan grŵp gweithredu o sefydliadau sy'n cydweithio i ddiogelu ac amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru. Mae llawer o bobl hŷn ledled Cymru wedi bod yn mynd ar-lein yn ddiweddar – rhai am y tro cyntaf – i gadw mewn cysylltiad ag anwyliad a chael hyd i wybodaeth a gwasanaethau hanfodol yn ystod y cyfnod cloi. A ydychydig o gamau syml – camau y dylem ni i gyd fod yn eu cymryd – gan gynnwys defnyddio cyfrineiriau a meddalwedd diogelwch cryf, a sicrhau bod apiau a systemau gweithredu'n cael eu diweddarau'n gyson, gall pobl hŷn fwynhau'r holl fanteisio o fod ar-lein wrth ddiogelu eu hunain rhag risgiau diogelwch posibl. Mae hefyd yn hanfodol bod pobl hŷn yn gwybod sut i adnabod sgamiau e-byst ac ar-lein eraill er mwyn diogelu eu hunain rhag troseddau sy'n ceisio dwyn eu harian a'u gwybodaeth bersonol. Mae'n ddefnyddiol bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar bobl hŷn i'w hamddiffyn eu hunain ar gael o Get Safe Online, sy'n rhoi cyngor ymarferol ar ddiogelu eich hun a'ch dyfeisiau rhag twyll, lladrad hunaniaeth, firsau a llawer o broblemau eraill a wynebir ar-lein. Mae gwefan Get Safe Online – [www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org) – yn darparu amrywiaeth eang o ganllawiau a gwybodaeth syml sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, yn ogystal ag awgrymiadau a diweddiadau defnyddiol am y sgamiau diweddaraf y dylid cadw llygad amdanynt.

## Pecyn Sefydlu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Cyhoeddwyd pecyn cynefino ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd ar 6 Gorffennaf a gellir ei lawrlwytho o wefan y Byrddau Diogelu gan ddefnyddio'r dolenni a ddarperir isod. Cafodd y pecyn cynefino hwn ei gynllunio i roi cyflwyniad i aelodau newydd y Bwrdd a'r Is-grwpiau i'w rolau a'u cyfrifoldebau ac i roi trosolwg o swyddogaethau'r Byrddau Diogelu. Mae copiâu ar gael hefyd gan yr Uned Fusnes ar gais os oes angen. Bydd Aelodau newydd i'r Bwrdd Diogelu yn derbyn pecyn yn awtomatig fel rhan o'r broses gynefino orfodol. Plant: [Saesneg](#) / [Cymraeg](#)  
Oedolion: [Saesneg](#) / [Cymraeg](#)



## Cysylltwch â ni yn:

Ffôn: 02922 330880/02922 330883

E-bost caerdyddabromorgannwgbrd@caerdydd.gov.uk

[www.cardiffandvalersb.co.uk](http://www.cardiffandvalersb.co.uk)



## Adnoddau a ychwanegir at y wefan

Yn ystod y pandemig Covid-19, aethom ati i goladu ac uwchlwytho amrywiaeth o adnoddau y gellid eu lawrlwytho o adrannau plant ac oedolion ein gwefan. Mae ystod eang o adnoddau ar gael, gan gynnwys diweddariadau Llywodraeth Cymru, adnoddau ar wybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gwybodaeth i'r cyhoedd, adnoddau ar iechyd meddwl a lles ymysg llawer o bethau eraill. Mae dolenni i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg i'w gweld isod er gwybodaeth i chi:

Plant: [Saesneg](#) / [Cymraeg](#)

Oedolion: [Saesneg](#) / [Cymraeg](#)

## Hysbyseb ar y radio

Ym mis Mai rhyddhawyd hysbyseb radio ar Drosoglwyddydd y Dwyrain Nation Radio a wnaeth 84 o hysbysebion deugain eiliad dros gyfnod o 4 wythnos. Pwrpas yr hysbyseb radio hon oedd ymestyn allan at gynulleidfa ehangach er mwyn pwysleisio bod diogelu yn dal yn gyfrifoldeb i bawb yn ystod y pandemig. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd aros yn wyladwrus a gofalu am eraill yn y gymuned. I'w nodi, tynnwyd ein sylw at fater diogelu o ganlyniad i'r hysbyseb hon.

## Strategaeth Mynd i'r Afael â Chamfanteisio

Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro'n lansio'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chamfanteisio ar 29 Gorffennaf 2020.

Mae'r strategaeth hon yn nodi ymrwymiad Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro (BDPRCaF) a'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (BDORh) i sefyll gyda'i gilydd i atal camfanteisio, diogelu a chefnogi'r rhai a effeithir gan gamfanteisio, dilyn ac amharu ar gyflawnwyr a throseddwr ac i gydweithio i baratoi pawb yn ein cymunedau ar draws Caerdydd a'r Fro i ymateb i gamfanteisio. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu i bennu blaenoriaethau a nodi camau gweithredu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon ar gyfer y rhanbarth erbyn mis Medi 2020.

Gallwch lawrlwytho fersiynau [Saesneg](#) a [Chymraeg](#) o'r strategaeth ar ein gwefan.

## Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2020

Dydd Llun 16 – Dydd Gwener 20 Tachwedd

Mae Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yn ddigwyddiad blynyddol a gynhelir ym mis Tachwedd. Nod yr wythnos yw codi ymwybyddiaeth am faterion diogelu ac atgyfnerthu'r neges bod 'diogelu'n gyfrifoldeb ar bawb'. Bydd thema ranbarthol eleni yn canolbwyntio ar Allgáu Cymdeithasol Mae'r trefniadau cynllunio ar gyfer digwyddiadau eleni yn mynd rhagddynt. Os oes gan eich sefydliad ddiddordeb mewn cynnal digwyddiad yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol eleni yna cysylltwch â'r Uned Fusnes.

## Stop it Now! Cymru

Mae Stop it Now! Cymru yn broiect atal cam-drin plant yn rhywiol, sy'n cael ei redeg gan yr elusen amddiffyn plant, Lucy Faithfull Foundation, ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ers 2008, maent wedi bod yn gweithio ledled Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag profiadau plentyndod niweidiol drwy atal cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio arnynt. Mae Stop it Now! wedi creu tair taflen hyrwyddo ar gyfer projectau newydd Ymyrraeth Gynnar a Sylfaenol. Un ar gyfer y sesiynau ymwybyddiaeth sylfaenol, un ar gyfer gwaith un i un ac mae'r un olaf ar gyfer y rhaglenni grŵp. Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn gallu dosbarthu'r rhain i'r adrannau a'r sefydliadau perthnasol a allai fod o ddiddordeb i chi. Mae gennym y fersiynau [Saesneg](#) a [Chymraeg](#) ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan.

## Digwyddiadau'r Hydref sydd i ddod

- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro 2019/20
- Rhaglen Arweinwyr Ymarfer Amlasiantaeth - Canolfan Arbenigedd ar Gam-Drin Plant yn Rhywiol
- Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2020